

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod 10 Mehefin 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
<b>YN BRESENNOL</b>		
Ken Brown (KB)	Daniel Williams (DW)	
Lena Ashley (LA)	Louise Hughes	
Iestyn Harris (IH)	Bethan Jones	
Sarah Riley	Nerys John (NJ)	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
<b>1.0</b>	<b>SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD</b>	
	<p>Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd a dwedodd bod Morris Owen Thomas, cymeriad blaenllaw yn y pentref wedi marw ac yn wahanol i'r arfer roedd o'r farn byddai'n briodol i sefyll mewn coffadwriaeth iddo yn y cyfarfod hwn. Dangosodd yr aelodau parchedig coffadwriaeth drwy godi ar eu traed.</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b> Pat Jones, George Smith, Siân Gwenllïan, Gwyneth Williams.</p> <p>Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfodydd oedd wedi cymryd lle er y cyfarfod diwethaf. Roedd cyfarfod wedi bod ar Lan y Môr (18/5/14) gyda swyddogion Cyngor Gwynedd yn glŷn â'r anawsterau oedd yn codi wrth i gerbydau barcio ar y gwair. Penderfynwyd codi bolardiau. Bydd bolard yn cael ei godi hefyd o flaen y Jeti. Roedd y Cynghorydd Daniel Williams am hysbysu'r trigolion yn yr ardal a derbyn eu sylwadau ar y gwaith arfaethedig. Eisoedd roedd y Cadeirydd wedi siarad â'r trigolion ac ni roedd gwrthwynebiad i'r bolardiau pren.</p> <p>Roedd cyfarfod safle wedi bod yn Cerrig yr Afon i benderfynu ar leoliad y golau stryd. Bellach mae'r golau ymlaen.</p> <p>Roedd cyfarfod wedi bod yn y maes parcio a'r broblem a'r bolard wedi ei weld, mae Cynghorydd Gwyneth Williams am edrych i mewn i archeb bolard. Bu cyfarfod yn y neuadd (27/5/14) a bydd y Pensaer yn ysgrifennu at y Cyngor i grynhoi'r hyn drafodwyd. Mae Menter Fachwen bellach wedi cyflwyno blodau newydd o amgylch y cloc a byddent yn danfon bagiau ailgylchu ar gyfer gwastraff cyfrinachol er mwyn clirio papurau o'r cwpwrdd yn ystafell y cyngor yn waelod y neuadd.</p>	<b>CLERC</b>
<b>2.0</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b>	
	Sarah Riley yn datgan diddordeb i eitem 9.2.	
<b>3.0</b>	<b>COFNODION</b>	
	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol mis Mai ynghyd a chofnodion y Cyfarfod Blynnyddol. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.	
<b>4.0</b>	<b>MATERION YN CODI</b>	
4.1	<b>Llwybr Cefnau Tai (Rhif 21)</b> -Cyflwynwyd llythyr roedd y Cyngor wedi ei dderbyn oddi wrth Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd a fyddai yn gallu ei roi i	

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	drigolion Stryd Bangor er mwyn iddynt gael eu hysbysu o'r sefyllfa. Roedd y llythyr yn datgan yn glir nad oedd cyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd cyflwyno copïau at y trigolion.	<b>CLERC</b>
4.2	<b>Llwybr Rhif 4</b> – Cyflwynwyd adroddiad ynghyd a lluniau oddi wrth y Cyngor Sir ar y llwybr. Roedd y lluniau oddeutu mis oed ac felly nid oedd y lluniau na'r adroddiad yn datgan y sefyllfa bresennol. Roedd y Cyngor yn awyddus i weld ymweliad safle yn wythnosol. Roedd y Cynghorydd Nerys John yn barod i dynnu lluniau a'u hanfon at y clerc er mwyn i swyddogion Cyngor Gwynedd eu derbyn.	<b>NJ CLERC</b>
4.3	<b>Refferendwm</b> - Penderfynwyd peidio a chynnal refferendwm.	
4.4	<b>Glan y Môr</b> - yn ychwanegol i'r hyn a ddywedodd y Cadeirydd yn ei adroddiad agoriadol dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi gofyn a byddai modd newid y bolardiau concriid eraill mewn amser. Nid cyllid i gael ar gyfer hynny nawr ond byddai modd edrych os bydd angen eu cynnal. Dywedodd y Clerc hefyd bod Cyngor Gwynedd yn mynd i wneud gwaith cynnal ar y stepiau ar y Jeti.	
4.5	<b>Cais Cynllunio C14/0106/20/LL</b> – bydd yr ymweliad safle ar y 16 Mehefin 2014 a gobeithir derbyn adroddiad yn y cyfarfod nesaf.	
4.6	<b>Holiadur Tai</b> - Roedd y Cynghorydd Nerys John wedi cyflwyno copi esiampl o holiadur drwy e-bost i'r aelodau a chopi caled i'r Cynghorydd Lena Ashley. Cadwyd trafodaeth a phenderfynwyd byddai'r Cyngor yn cynnal arolwg drwy anfon holiaduron. Penderfynwyd byddai grŵp o'r aelodau yn cyfarfod i gynllunio'r holiadau. Penderfynwyd hefyd byddai cyllid o £500 i gael ar gyfer dyblygu'r holiadur.	
<b>5.0</b>	<b>ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD</b>	
5.1	Roedd cyfarfod wedi rhwng y Pensaer a'r Adeiladwr a bod hwnnw wedi bod yn un adeiladol. Gobeithir bod y gwaith am gael ei wneud, disgwylir adroddiad o'r cyfarfod oddi wrth y pensaer. Mae pris wedi ei dderbyn ynglŷn â'r sgaffald i gefn y neuadd. Bydd angen cael pris arall.	<b>DW</b>
<b>6.0</b>	<b>CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD</b>	
6.1	Cadarnhawyd gwariant mis Mai. Mae adroddiad mewnol y cyfrifon wedi ei derbyn ac roedd popeth yn iawn, bellach mae'r cyfrifon wedi eu hanfon at yr archwilwyr allanol.	
6.2	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod siec a gyflwynwyd i Cefnogi fel grant byth heb gael ei gyflwyno i'r banc. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn cysylltu â Cefnogi i weld beth oedd yn digwydd.	<b>CLERC</b>
6.3	Roedd datganiad wedi ei dderbyn gan Jones & Whitehead ynglŷn ag arolwg trydan i'r neuadd. Nid	

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	oedd y Cyngor wedi comisiynu arolwg ac felly roedd y Swyddog Ariannol am holi'r cwmni am eglurhad.	<b>SWYDDOG ARIANNOL</b>
<b>7.0</b>	<b>GOHEBIAETH</b>	
	Derbyniwyd rhai o lythyrau ond nid oedd angen gweithred arnynt.	
<b>8.0</b>	<b>ADRODDIAD Y CLOC</b>	
	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod yn dal i ddisgwyl gwybodaeth oddi wrth Elinor Grey Williams y Pensaer. Roedd wedi bod yn sâl ac felly wedi methu dod yn ôl ato. Mae problem gyda'r cyflenwad trydan i'r cloc a byddai angen archwilio'r broblem.	<b>DW</b>
<b>9.0</b>	<b>CEISIADAU CYNLLUNIO</b>	
9.1	C14/0430/20/LL – Trosi meddygfa i 2 uned byw hunangynhaliol ynghyd a chodi estyniadau a balcony – 1 Felinheli Terrace Y Felinheli LL56 4JF – <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
9.2	C14/0465/20/II Gosod ffenestr dormer yn y to – Wenallt, Tafarngrisiau Road, Y Felinheli LL56 4NZ – <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
<b>10.0</b>	<b>ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT</b>	
	Adroddwyd bod y gwair wedi derbyn toriad. Y fainc wedi ei gosod yn ei lle. Diolch i Robert Hughes am ei waith. Roedd cwynion ynglŷn â chyflwr mynwent yr eglwys wedi ei dderbyn. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn hysbysu'r Deon Bro o hyn.	<b>CLERC</b>
<b>11.0</b>	<b>ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH</b>	
11.1	Gweler adroddiad y Cadeirydd.	
<b>12.0</b>	<b>ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU</b>	
12.1	Mae cwynion wedi ei derbyn ynglŷn â sbwriel yn ymgasglu yn y gysgodfan bws ger yr eglwys. Mae cais wedi ei wneud ar gyfer cael bin yno.	
<b>13.0</b>	<b>ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR</b>	
	Y Cadeirydd wedi adrodd ar y cyfarfodydd.	
<b>14.0</b>	<b>CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL</b>	
	Gobeithir cael fwy o wybodaeth mis nesaf. Mae'r Cynghorydd Daniel Williams yn disgwyl gwybodaeth oddi wrth Gwyn Mosley. Mae rhai o fusnesau Glan y Môr yn barod i helpu a'r cynllun.	
<b>15.0</b>	<b>UNRHYW FATER ARALL</b>	
	Gobeithir trefnu cyfarfod o'r is-bwyllgor cyflogau o fewn y mis er mwyn adrodd yn ôl i gyfarfod mis Gorffennaf. Cafwyd gwybodaeth bod ci yn baeddu yn ardal y Wern. Y Clerc i ymdrin â'r cwyn. Mae cyfar tap dwr o fewn y ffordd ar Tafarngrisiau yn rhydd ac mae plenty wedi syrthio yn barod. Y Clerc i ymdrin â'r gwyn.	<b>IH CLERC</b>
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 9:15 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod arbennig 24 Mehefin 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 6:30 yn yr hwyr.

### YN BRESENNOL

Ken Brown (KB)	George Smith
Pat Jones	Siân Gwenllïan
Iestyn Harris (IH)	Gwyneth Williams
	Nerys John (NJ)

### 1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd bod cais cynllunio wedi ei dderbyn a bod angen ei ystyried ac anfon sylwadau cyn y cyfarfod misol nesaf a hyn oedd pwrpas y cyfarfod arbennig. Hefyd roedd llythyr ymgynghoriad o osod llinellau melyn ger yr Hen Gei Llechi wedi ei dderbyn.

Ymddiheuriadau: Bethan Jones, Louise Hughes, Lena Ashley.

### 2.0 CAIS CYNLLUNIO

**C14/0498/20/LL** – Gosod paneli solar pv ar gyfer creu parc solar ynghyd a gwaith atodol sy'n cynnwys strwythurau a ffens – Fferm Parciau Griffiths Crossing, Caernarfon LL55 1TS.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cais a phenderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn Gwrthwynebu oherwydd body n cefnogol i ffurf newydd o greu ynni a fyddai ddim yn effeithio'r amgylchedd. Er hynny roedd y Cyngor Cymuned yn awyddus i'r Clerc anfon eu sylwadau i Gyngor Gwynedd.

Roedd y Cyngor yn awyddus i weld gwifrau trydanol yn cael eu gosod o dan ddaear a byddent yn hoffi derbyn cadarnhad y bydd hyn yn digwydd.

Gan y bod adroddiad yr "Environmental Impact wedi ei wneud ar y sefyllfa bresennol roeddynt am wneud sylw i'r ffaith bod llwybr y ffordd osgoi yn agos i'r parc arfaethedig a byddai'r paneli solar yn gallu codi "glare" fydd yn effeithio gyrrwyr ar y ffordd osgoi ac yn achosi anawsterau gyrru ac efallai yn achosi damweiniau. Gofynnir hefyd a fyddai'r glare hyn yn cael effaith ar awyrennau wrth ydynt ddefnyddio'r llwybr hedfan tuag at Landwrog?

Byddai'r glare hyn hefyd yn gallu ymwithio a golygfeydd o dir uchel tuag at yr arfordir.

Nid oedd y dogfennau a gafwyd yn rhoi mesuriadau uchder y paneli o'r llawr na'r ongl meant am eu gosod byddai derbyn y wybodaeth hon wedi bod o werth.

Y Clerc i anfon y sylwadau.

### 3.0 CYFYNGIADAU PARCIO

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynlluniau o osod llinellau melyn ar y gyffordd yn Hen Gei Llechi. Roedd

**CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI**

	y Cadeirydd wedi bod yn siarad â thrigolion yr ardal ac nid oedd gwrthwynebiad. Felly nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cyfyngiadau parcio.	
Llofnod:		Dyddiad: